# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Preswyl Plas Garnedd**

**Cartref Preswyl Plas Garnedd**
**Ffordd Penmynydd**
**Llanfairpwllgwyngyll**
**LL61 5EX**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

## 15 Gorffennaf 2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Preswyl Plas Garnedd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | PLAS GARNEDD CARE LIMITED |
| Lleoedd cofrestredig | 28 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 28 Ionawr 2020 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Ydy, mae'r gwasanaeth yn darparu'r ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn hapus yn byw yn y gwasanaeth ac yn canmol safon y gofal y maent yn ei gael. Darperir gofal a chymorth mewn modd amserol ac mewn ffordd barchus sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Caiff anghenion unigol y bobl eu cofnodi yn eu cynlluniau personol ac mae'r staff yn gyfarwydd â dewisiadau'r bobl a'r ffordd y maent yn dymuno cael eu cefnogi. Caiff asesiadau risg eu defnyddio i reoli risgiau a nodwyd i ddiogelwch y bobl; byddai cynnwys manylion pellach mewn perthynas â'r ffordd y caiff y risgiau eu rheoli yn datblygu'r asesiadau hyn ymhellach. Mae'r staff yn mwynhau gweithio yn y gwasanaeth; maent yn ymfalchïo yn eu gwaith ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Mae trefniadau ar waith i gadw'r bobl yn ddiogel a'u hamddiffyn rhag niwed. Caiff gwiriadau cyn cyflogi eu cwblhau i sicrhau bod y staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn addas i weithio gydag oedolion sy'n agored i niwed.  Mae'r staff yn deall eu rolau mewn perthynas â diogelu. Caiff y staff eu cefnogi'n dda yn eu rolau ac maent yn cael hyfforddiant priodol. Mae systemau ar waith gan y darparwr i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn barhaus, er mwyn gwella a datblygu'r canlyniadau ar gyfer y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth ymhellach.

## Llesiant

Caiff hawliau'r bobl eu hybu am eu bod yn cael eu hannog i gymryd rheolaeth o'u bywyd o ddydd i ddydd. Mae dewisiadau ar gael i'r bobl mewn perthynas â'r drefn ddyddiol, megis pryd i godi yn y bore a phryd i fynd i'r gwely gyda'r nos. Mae'r bobl yn penderfynu sut a ble y maent yn dymuno treulio eu diwrnod, ac a ydynt am gymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau grŵp. Mae dewisiadau ar gael adeg prydau bwyd hefyd, megis y fwydlen a ble y byddai'n well gan y bobl gael eu prydau. Mae'r staff yn ymgyfarwyddo â dewisiadau unigol y bobl a chaiff y rhain eu cofnodi o fewn dogfennaeth gofal y bobl.

Caiff llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol ei hybu drwy ffyrdd amrywiol. Caiff cyflyrau iechyd eu cofnodi yng nghynlluniau personol y bobl a darperir gofal gan sicrhau bod y bobl yn cael eu meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd. Mae asesiadau risg ar waith i nodi risgiau i ddiogelwch y bobl a gellir datblygu'r rhain ymhellach drwy gynnwys manylion pellach o ran y ffordd y caiff y risgiau eu rheoli.

Caiff y bobl eu diogelu a'u hamddiffyn rhag niwed. Mae'r staff sy'n gweithio yn y cartref wedi cael eu fetio i gadarnhau eu bod yn addas i weithio gyda phobl sy'n agored i niwed. Maent wedi cael hyfforddiant ar sut i adnabod camdriniaeth a gallant ddangos yn hyderus sut y byddent yn ymateb i unrhyw fater diogelu. Mae polisi diogelu ar gael i arwain y staff, ond mae angen diweddaru hwn i fod yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol.

Mae'r cartref yn fawr, mewn cyflwr da ac yn ddiogel. Caiff risgiau i iechyd a diogelwch y bobl ar y safle eu nodi a'u lleihau sy'n galluogi'r bobl i barhau i fod mor annibynnol â phosibl. Mae ystafelloedd y bobl i gyd yn wahanol ac maent wedi'u personoli â'u heitemau cyfarwydd eu hunain i wneud iddynt deimlo'n gyfforddus ac yn gartrefol i bob unigolyn. Darperir gofal a chymorth mewn amgylchedd glân a diogel, sydd hefyd yn amddiffyn iechyd corfforol y bobl ac yn hybu eu hymdeimlad o werth.

Mae gan y bobl gydberthnasau da â'r staff sy'n eu cefnogi nhw a'u cydbreswylwyr. Mae trefniadau ar waith i alluogi'r bobl i weld eu teulu a'u ffrindiau, mewn amgylchedd diogel, sy'n hybu llesiant emosiynol y bobl. Gan fod llawer o bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn lleol i'r ardal, maent eisoes yn adnabod rhai o'u cydbreswylwyr. Mae hyn yn helpu'r bobl i deimlo bod cysylltiadau ganddynt â'r rhai y maent yn byw gyda nhw. Mae'r bobl a'r staff yn y gwasanaeth yn siarad Cymraeg a Saesneg, ac mae hyn hefyd yn galluogi'r bobl i deimlo eu bod yn perthyn.

## Gofal a Chymorth

Mae systemau ar waith i ddiogelu'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae polisi diogelu ar gael sy'n rhoi gwybod i'r staff am eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas ag amddiffyn oedolion sydd mewn perygl o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod. Mae angen diweddaru'r polisi hwn er mwyn bod yn unol â'r polisi diogelu cenedlaethol cyfredol. Roedd y cofnodion a welsom yn dangos bod y staff wedi cael hyfforddiant diogelu a bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'r hyn y dylent ei wneud os byddant yn amau camdriniaeth, yn dyst i hynny neu fod achos o gamdriniaeth yn cael ei ddatgelu iddynt. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn byw yn y gwasanaeth.

Caiff mesurau rheoli heintiau a hylendid eu hybu yn y gwasanaeth. Mae'r staff yn cwblhau hyfforddiant rheoli heintiau ac yn gwisgo cyfarpar diogelu personol (PPE) ac mae cyflenwad da ar gael ym mhob rhan o'r adeilad. Cwblheir gwiriadau cyn y gall ymwelwyr ddod i mewn i'r adeilad, er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo COVID-19, ac mae cofnodion ar gael i ddangos hyn. Mae polisi rheoli heintiau ar waith, gydag archwiliadau ychwanegol wedi'u hwyluso gan weithwyr iechyd allanol proffesiynol, a hwylusir gan y darparwr, i hybu arferion rheoli heintiau da ac effeithiol.

Ar y cyfan, mae systemau diogel ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaeth yn y gwasanaeth, ond mae angen gwneud rhai gwelliannau. Mae'r bobl yn cael eu meddyginiaeth fel y'i rhagnodir gan staff sydd wedi'u hyfforddi i roi meddyginiaeth yn ddiogel. Mae trefniadau anffurfiol ar waith ar gyfer archwilio'r systemau meddyginiaeth a gwnaethom gynghori'r rheolwr y dylid cofnodi'r trefniadau hyn, fel y gellir dangos tystiolaeth eu bod ar waith. Cafodd AGC dempled archwilio meddyginiaeth yn dilyn yr arolygiad. Mae dau aelod o'r staff yn cofnodi trefniadau rhoi cyffuriau a reolir yn y llyfr cyffuriau a reolir. Fodd bynnag, dylai siart feddyginiaeth yr unigolyn gofnodi hyn hefyd, yn unol â chanllawiau fferyllol cenedlaethol. Rhaid i'r staff hefyd sicrhau na all pobl anawdurdodedig gael gafael ar y troli meddyginiaeth.

Darperir gofal a chymorth mewn ffordd barchus, urddasol ac amserol. Mae'r bobl yn canmol safon y gofal a gânt ac maent yn siarad yn annwyl am y staff sy'n eu cefnogi. Mae'r staff yn gyfarwydd â threfn ddyddiol unigol y bobl, ac maent yn gwneud ymdrech i ddod i adnabod eu hoff bethau a'u cas bethau. Mae'r ddogfennaeth gofal yn gyfredol ac yn cofnodi cyflyrau iechyd y bobl, eu hanghenion gofal a chymorth unigol a ffordd o'u diwallu. Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r trefniadau cofnodi risgiau a nodwyd i ddiogelwch y bobl, ond mae angen manylion pellach o ran cofnodi'r ffordd y cânt eu rheoli. Caiff cwympiadau eu cofnodi yn y llyfr damweiniau. Fodd bynnag, byddai cynnwys dadansoddiad o'r cwympiadau yn adolygiad pob unigolyn yn helpu i asesu a lliniaru risg barhaus y bobl o gwympo.

## Yr Amgylchedd

Darperir gofal a chymorth mewn amgylchedd sy'n hybu cyflawniad y bobl o'u canlyniadau personol yn gadarnhaol. Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli mewn ardal breswyl ac o fewn pellter cerdded i ganol y pentref lle mae cyfleusterau cymunedol perthnasol a mynediad da i drafnidiaeth gyhoeddus. Mae mynediad gwastad i bob ardal ar y safle, sy'n ei gwneud hi'n haws i'r bobl symud o gwmpas yn yr adeilad, os byddant yn dymuno gwneud hynny.

Mae pob ardal yn y cartref yn cael ei chynnal i safon uchel ac mae unigolyn cynnal a chadw ar gael i ddelio â materion iechyd a diogelwch ar unwaith wrth iddynt godi. Mae'r staff cadw tŷ a'r staff gofal yn cydweithio i sicrhau bod yr ardaloedd cymunedol, ystafelloedd y bobl a'r ystafelloedd ymolchi yn cael eu cadw'n lân ac yn daclus. Caiff diheintio ychwanegol ei gwblhau hefyd yn ystod cyfnod presennol y pandemig er mwyn helpu i leihau'r risg o drosglwyddo'r feirws.

Mae ystafelloedd y bobl wedi'u personoli ag eitemau sydd o bwys iddynt, megis ffotograffau, planhigion, clustogau a blancedi, sy'n creu ymdeimlad unigol ym mhob ystafell. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon ar eu hystafelloedd a'u bod yn teimlo'n gartrefol yn y gwasanaeth.

Mae lolfeydd cymunedol o feintiau amrywiol a heulfan ar gael i'r bobl gwrdd â phobl eraill, i ffwrdd o'u hystafelloedd eu hunain, os byddant yn dewis gwneud hynny. Mae'r lolfeydd yn cynnwys dodrefn ac eitemau sy'n creu ymdeimlad cartrefol sy'n helpu i ddarparu amgylchedd cyfforddus i'r bobl dreulio amser ynddo. Mae dwy ystafell fwyta ar gael a gall y bobl ddewis ble maent am eistedd i gael eu prydau.

Gall y bobl dreulio amser yn yr awyr agored yn y gerddi o amgylch y cartref, am eu bod yn hygyrch ac mae nifer o ardaloedd eistedd ar gael. Mae llwybrau fflat yn yr awyr agored lle gall y bobl gerdded yn ddiogel, neu eu defnyddio gyda chadair olwyn, ac mae hefyd ardaloedd glaswellt gyda llwyni a blodau o'u hamgylch.

Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod y bobl yn cael gofal mewn amgylchedd diogel. Gwelsom fod yr awdurdod lleol wedi archwilio'r gegin ym mis Mai 2021 ac wedi rhoi'r sgôr uchaf posibl o bump. Mae cofnodion ar gael i ddangos bod gwiriadau iechyd a diogelwch yn cael eu cwblhau'n rheolaidd i sicrhau bod y safle yn ddiogel i'r bobl fyw ynddo. Gwnaethom drafod â'r rheolwr y dylid cloi'r drws i'r ystafell golchi dillad bob amser, am ei bod yn cynnwys glanedydd golchi dillad, er mwyn amddiffyn diogelwch y bobl sydd â dementia.

## Arwain a Rheoli

Darperir niferoedd priodol o staff i alluogi'r bobl i gael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt ar yr adeg gywir. Mae'r bobl yn cadarnhau bod y staff yn ymateb i'w anghenion wrth iddynt godi a darperir cymorth mewn ffordd bwyllog. Gwelwyd hyn yn ystod yr ymweliad. Roedd cofnodion y staff yn dangos bod gwiriadau cyn cyflogi yn cael eu cwblhau cyn i staff gael eu penodi i weithio yn y gwasanaeth, i sicrhau eu bod yn addas i weithio gyda phobl sy'n agored i niwed. Caiff y staff hyfforddiant priodol i'w galluogi i fodloni gofynion eu rolau a diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r staff yn cael eu goruchwylio'n ffurfiol gan y rheolwr, sy'n rhoi cyfle i fyfyrio ar eu hymarfer a nodi unrhyw anghenion hyfforddiant ychwanegol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn y gwasanaeth, eu bod yn teimlo eu bod yn gweithio'n dda fel tîm a'u bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau.

Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith, yn ogystal â threfniadau llywodraethu, i gefnogi'r gwaith o redeg y gwasanaeth yn ddidrafferth. Mae'r bobl yn y gwasanaeth yn gwybod pwy yw'r unigolyn cyfrifol a sut i gysylltu ag ef, os byddant yn dymuno gwneud hynny. Mae trefniadau ar waith i fonitro ansawdd pob agwedd ar y gwasanaeth a ddarperir yn ddyddiol gan y rheolwr sy'n rhoi gwybod am ei ganfyddiadau i'r unigolyn cyfrifol yn rheolaidd. Mae adroddiadau ar gael sy'n dangos cyfathrebu da rhwng yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr o ran monitro safon y gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Caiff archwiliadau, megis cwympiadau sydd wedi digwydd yn y gwasanaeth, eu cwblhau ac maent yn cofnodi math a natur y cwympiadau. Mae'r gwasanaeth hefyd yn gweithio gyda gweithwyr iechyd allanol proffesiynol i asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Mae hyn yn dangos parodrwydd i geisio adborth arbenigol ar sut i wella a datblygu'r gwasanaeth ymhellach.

Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn gynaliadwy yn ariannol, a'i fod yn gallu gwrthsefyll yr heriau mae pandemig COVID-19 wedi'u creu ar gyfer y gwasanaeth. Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud yn y gwasanaeth ers yr arolygiad diwethaf, er gwaethaf y pandemig, sydd wedi gwella canlyniadau ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi ei gyflawni** |
|---|

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau** | |
|---|---|
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 29/09/2021